


PEACE EDUCATION NETWORK

Pecyn Addysgu

Gwasanaeth: Beth yw heddwch?



Nod: annog plant i ystyried beth yw heddwch a sut y gallwn ei wireddu.

Cynllunio/paratoi: byddwch angen y cyflwyniad PwyntPŵer 'Beth yw heddwch?' o wefan Rhwydwaith Addysg Heddwch:
www.peace-education.org.uk.

Mae'r sgwariau oren ■ yn y testun yn cyfeirio at y sleidiau hyn.

Mae'r pedwar llun cwis ■ sleidiau 2,4,5 a 7, yn cael eu datgelu'n raddol trwy glicio ar y llygoden (byddwch yn barod i wneud llawer o glicio!).

1 Cwis ■ Sleid 1

Bydd cyfres o luniau yn cael eu datgelu'n raddol (wrth i chi glicio). Gofynnwch i'r plant godi eu dwylo pan fyddant yn meddwl eu bod yn gwybod beth sydd yn y llun ...

- Sleid 2: Llun o golomen
- Sleid 3: Beth a welwch? (cliciwch i ddatgelu'r ddelwedd)
- Sleid 4: Arwydd heddwch gyda bysedd
- Sleidiau 5 a 6: Garanod papur origami [edrychwch am atebion megis adar, adar papur, origami]
- Sleidiau 7 ac 8: Symbol CND (Ymgyrch Diarfogi Niwclear). (Edrychwch am atebion fel symbol heddwch.)

2 Symbol CND

Holwch y plant: Oes unrhyw un yn gwybod o ble y daw symbol CND?

Eglurwch mai ymgyrch i waredu bomiau niwclear yw'r Ymgyrch Diarfogi Niwclear. Rhain yw'r bomiau mwyaf pwerus sydd ar gael. Mae'r symbol yn gyfuniad o'r llythrennau N a D mewn semaffor – N am niwclear, D am ddarfogi ■ sleid 8.

3 Heddwch

Oes unrhyw un yn gwybod am un gair sy'n cysylltu'r pedair delwedd yma?

- Sleid 9: [Edrychwch am yr ateb HEDDWCH. Os oes angen mwy o gymorth yna ...] Mae pump llythyren yn y gair ...
- Sleid 10: H yw'r llythyren gyntaf
- Sleid 11
- Sleid 12: Beth yw heddwch? *Ceisiwch ddarganfod ystyr heddwch i'r plant. Holwch: Beth yw heddwch? Rhowch ychydig eiliadau iddynt i ystyried y cwestiwn a thrafod syniadau gyda'r person agosaf atynt. [Derbyniwch adborth ar ôl munud neu ddau.]*

4 Diffiniadau o heddwch

Eglurwch fod sawl person wedi ceisio diffinio heddwch dros y blynyddoedd ...

- Sleid 13: *Holwch: Oes unrhyw un yn adnabod hwn?*
- Sleid 14: Martin Luther King – Americanwr a weithiodd er mwyn cael chwarae teg i bobl o bob cenedl yn Unol Daleithiau America.
- Sleid 15: Dywedodd "Nid absenoldeb tensiwn yw heddwch, ond presenoldeb cyfiawnder."

5 Diffiniadau'r plant

Roedd gan blant blynyddoedd 1 a 2 eu syniadau eu hunain ynghylch heddwch pan gawsant 'wythnos heddwch'.

■ Sleid 16: Dywedon nhw: "Heddwch yw helpu fy ffrindiau pan maent fy angen i."

■ Sleid 17: "Heddwch yw pan mae pawb yn cydweithredu ac yn gwrando ar ei gilydd."

6 Gandhi

■ Sleid 18: *Ac yn olaf, holwch pwy yw hwn? – Gandhi.*

■ Sleid 19: Dywedodd ef: "*Byddwch y newid rydych am ei weld yn y byd.*" Beth dybiwch y golygai ef wrth hynny? [Edrychwch am atebion sy'n nodi os ydym am heddwch rhaid i ni fod yn heddychlon, os ydym am chwarae teg, rhaid i ni drin pobl yn deg a.y.y.b.]

7 Casgliad: Heddwch a Chyfiawnder

Rydym wedi siarad am heddwch a beth yw heddwch. Byd heddychlon yw byd lle ceir cyfiawnder; lle caiff pawb eu trin yn deg, lle nad oes trais, a lle y gallwn fyw heb ofn. Ac mae'r dyfyniad olaf yna gan Gandhi yn ein hatgoffa os ydym am heddwch rhaid i ni fod yn bobl heddychlon a gweithio dros heddwch.

Gweithgareddau/adnoddau pellach:

- Gall y plant lunio llyfryn neu negeseuon 'Heddwch yw ...' trwy gyfrwng brawddegau neu luniau. Gofynnwch i'r plant ble maent yn teimlo'n heddychlon a dyluniwch 'y man heddychlon' yn eich ystafell ddosbarth/ysgol lle y gallwch arddangos eu negeseuon.

Mae'r llyfryn *The Peace Book* gan Todd Parr, 2008, yn helpu plant 5 – 7 oed i berthnasu â'r cysyniad o heddwch.

- Am weithgareddau er mwyn creu ysgol fwy heddychlon, gwelwch 'Learning for Peace – developing outstanding SMCS in Primary Schools' o'r wefan: www.peacemakers.org.uk neu e-bostiwrch office@peacemakers.org.uk
- Os ydych yn byw yng Nghymru ewch i: www.wcia.org.uk/walesforpeace.html er mwyn darganfod heddychwyr lleol.

- Ewch i www.peacefulschools.org.uk er mwyn ymuno â'r Mudiad Ysgolion Heddychlon (Peaceful Schools Movement).

- Llyfrau defnyddiol eraill:

Can You Say Peace? gan Karen Katz, 2006. Llyfr syml sy'n galluogi plant i ddweud 'heddwch' mewn ieithoedd gwahanol.

What does peace feel like? gan Vladimir Radunsky, 2004. Plant yn disgrifio sut mae heddwch yn teimlo, yn blasu ac yn swnio.

The Story of Ferdinand gan Munro Leaf, 2011. Tarw yw Ferdinand ac mae'n well ganddo eistedd a sawru'r blodau na bwrw pennau eraill.

War and Peace gan Michael Foreman, 2002. Neges sylfaenol y llyfr yw helpu eraill a rhannu eich eiddo.

Am fwy o lyfrau plant ymwelwch â: www.wordpool.co.uk/ccb/war.htm